

# Cwrs Mynediad: Uned 26

**Nod:** Disgrifio golwg rhywun a disgrifio eich cartref  
*Describing how someone looks and describing your home*

## 1. Sut un yw e / hi?

Mae e'n foel / dew / dal / fyr  
Mae gwallt golau gyda fe  
tywyll gyda hi  
cyrliog gyda fi  
hir gyda fe  
byr gyda hi

Mae llygaid glas gyda fe  
brown gyda hi  
Mae trwyn hir gyda fe  
smwt gyda hi  
Mae mwstash gyda fe  
sbectol gyda hi  
barf gyda fe

Oes gwallt golau gyda fe?  
llygaid glas gyda hi?  
het gyda fe?  
clustdylsau gyda hi?

Beth yw lliw ei wallt e?  
lliw ei gwallt hi?  
lliw ei lygaid e?  
lliw ei llygaid hi?  
Ydy e'n foel?  
dew?

*What is he/she like?*

*He's bald / fat / tall / short  
He's got fair hair  
She's got dark hair  
I've got curly hair  
He's got long hair  
She's got short hair*

*He's got blue eyes  
She's got brown eyes  
He's got a long nose  
She's got a stubby nose  
He's got a moustache  
She's got/wears glasses  
He's got a beard*

*Has he got fair hair?  
Has she got blue eyes?  
Has he got a hat?  
Has she got ear-rings?*

*What colour is his hair?  
What colour is her hair?  
What colour are his eyes?  
What colour are her eyes?  
Is he bald?  
Is he fat?*





## Gyda phartner

Gofynnwch gwestiynau i'ch partner i gael gweld pa berson mae e/hi'n edrych arno, e.e.

*Ask your partner questions to find out which person he or she is looking at, e.g.*

'Dyn neu fenyw yw'r person?'

'Dyn yw e.'

'Oes gwallt cyrliog gyda fe?'

'Nac oes, does dim gwallt cyrliog gyda fe.'

'Ydy e'n foel?'

'Ydy.'

'Dewi yw e?'

'Nage, dim Dewi yw e.'

'Oes ... gyda fe?'

etc.



Aled



Mair



Dewi



Eirwen



Menna



Elfed



John



Gwilym



Catrin



Alun



Sara



Dafydd



Llinos



Tecwyn



Eldra



Gwen



## Gyda phartner

Disgrifiwch aelod o'r teulu neu o'r dosbarth i'ch partner. Rhaid i'ch partner ofyn cwestiynau, tynnu llun y person, a labelu'r llun - e.e. gwallt golau; trwyn smwt.

*Describe a member of your family or the class to your partner. Your partner must ask questions, draw the person and label the picture - e.g. gwallt golau, trwyn smwt.*

e.e. Beth yw lliw ei wallt e / ei gwallt hi?  
Oes trwyn hir gyda fe?  
Ydy e'n olygus?



2. Sawl ystafell wely sy gyda chi?  
Sawl ystafell ymolchi sy gyda chi?  
Oes gardd fawr gyda chi?  
Oes garej gyda chi?

Mae lolfa fawr gyda ni  
Mae ystafell fwyta fach gyda ni  
Mae cegin hyfryd gyda ni

*How many bedrooms have you got?  
How many bathrooms have you got?  
Have you got a big garden?  
Have you got a garage?*

*We've got a big lounge  
We have a small dining room  
We've got a lovely kitchen*

### Holiadur Pedwar Person

Holwch bedwar person am eu cartref. Does dim rhaid i'r atebion fod yn wir!

*Ask four people about their homes. The answers don't have to be true!*

| Enw                    | 1 | 2 | 3 | 4 |
|------------------------|---|---|---|---|
| Sawl ystafell wely?    |   |   |   |   |
| Sawl ystafell ymolchi? |   |   |   |   |
| Lolfa fawr?            |   |   |   |   |
| Ystafell fwyta?        |   |   |   |   |
| Gardd?                 |   |   |   |   |
| Garej?                 |   |   |   |   |
| Pwll nofio?            |   |   |   |   |



**Darllenwch y ddeialog hon gyda'r tiwtor ac yna gyda'ch partner:**

- Alun: Ble wyt ti'n byw?  
 Beti: Yn Llanbed. Beth amdanat ti?  
 Alun: Dw i'n byw ar fferm ar bwys Felin-fach. Wyt ti'n byw ar fferm?  
 Beti: Nac ydw, dw i'n byw mewn tŷ. Mae tair ystafell wely, un ystafell ymolchi, lolfa a chegin fawr gyda ni.  
 Alun: Mae dwy ystafell wely a dwy ystafell ymolchi *en suite* gyda ni. Oes garej gyda chi?  
 Beti: Nac oes, ond mae lle parcio ar bwys y tŷ ac mae gardd fawr neis gyda ni. Beth amdanat ti?  
 Alun: Mae garej gyda ni a dyw'r ardd ddim yn rhy fawr, diolch byth. Dw i ddim yn hoffi gweithio yn yr ardd!



Llenwch y grid gyda'r wybodaeth am Alun a Beti:

*Fill the grid with information about Alun and Beti:*

| Enw: | Byw? | Sawl ystafell wely? | Sawl ystafell ymolchi? | Garej? | Gardd? |
|------|------|---------------------|------------------------|--------|--------|
| Alun |      |                     |                        |        |        |
| Beti |      |                     |                        |        |        |

Mae 2 ystafell arall wedi'u henwi yn y ddeialog. Beth ydyn nhw?

*Two other rooms are named in the dialogue. What are they?*

1. \_\_\_\_\_
2. \_\_\_\_\_



## Deialog

### Yn y parti

- A:** Pwy yw hwnna draw fan 'na? Mae gwallt golau a sbectol gyda fe.  
**B:** O, Bryn James yw hwnna. Gŵr Sandra yw e.  
**A:** O, ie, dw i'n gwybod – ffermwr yw e. Wyt ti'n nabod honna ar bwys y bar 'te? Mae gwallt hir tywyll gyda hi.  
**B:** Siriol Hughes yw honna. Mae hi'n gweithio fel cyfreithwraig yn y dre.  
**A:** A pwy yw'r dyn byr 'na ar bwys y drws? Mae trwyn hir gyda fe - on'd yw e'n salw?  
**B:** O... Eifion fy nghefnider i yw hwnna.



## Geirfa

|                      |                                       |
|----------------------|---------------------------------------|
| barf (b)             | - beard                               |
| byr                  | - short                               |
| cegin(au) (b)        | - kitchen(s)                          |
| clustdlws            |                                       |
| (clustdlysau)        | - ear-ring(s)                         |
| cyfreithwraig (b)    | - female solicitor                    |
| cyrliog              | - curly                               |
| golau                | - fair (hair)                         |
| gwallt               | - hair                                |
| het(iau) (b)         | - hat(s)                              |
| hir                  | - long                                |
| honna (b)            | - that one (feminine person / thing)  |
| hwnna                | - that one (masculine person / thing) |
| lolfaf (b)           | - lounge                              |
| lle parcio           | - parking space                       |
| llygad (llygaid)     | - eye(s)                              |
| moel                 | - bald                                |
| mwstach              | - moustache                           |
| spectol (b)          | - glasses                             |
| smwt                 | - snub (nose)                         |
| trwyn(au)            | - nose(s)                             |
| tywyll               | - dark                                |
| ystafell fwyta (b)   | - dining room                         |
| ystafell fyw (b)     | - living room                         |
| ystafell wely (b)    | - bedroom                             |
| ystafell ymolchi (b) | - bathroom                            |



## Gramadeg

### How many?

Yn Uned 9, roedd:

**Faint** o blant sy gyda ti?

*How many children have you got?*

Yma, mae ffordd arall (another way):

**Sawl** ystafell wely sy gyda chi?

*How many bedrooms have you got?*

Felly, mae dau ddewis (two options):

Faint + o + **plural noun**

- Faint o ystafelloedd sy gyda chi?

Sawl + **singular noun**

- Sawl ystafell sy gyda chi?

### Ystafell

Mae **ystafell** yn fenywaidd (feminine), felly cofiwch y **treigladd meddal**:

|                |   |             |
|----------------|---|-------------|
| ystafell_wely  | - | bedroom     |
| ystafell_fwyta | - | dining room |
| ystafell_fyw   | - | living room |



# Cwrs Mynediad: Uned 27

**Nod:** Dweud beth dych chi'n gallu wneud a pha mor aml dych chi'n gwneud rhywbeth  
*Saying what you are able to do and how often you do something*

## 1. Beth dych chi'n gallu wneud?

Wyt ti'n gallu canu?

Dych chi'n gallu canu?

Ydw, dw i'n gallu canu

canu'n dda iawn

canu'n eitha da

Nac ydw, dw i ddim yn gallu canu

Ydy e'n gallu helpu?

Ydy, mae e'n gallu helpu

Nac ydy, dyw e ddim yn gallu helpu

*What can you do?*

*Can you sing? /*

*Are you able to sing?*

*Yes, I can sing*

*Yes, I can sing very well*

*Yes, I can sing quite well*

*No, I can't sing*

*Can he help?*

*Yes, he can help*

*No, he can't help*



## Gyda phartner

'Wyt ti'n gallu \_\_\_\_\_?'

'Ydw, dw i'n gallu \_\_\_\_\_ yn dda iawn / yn eitha da.'

'Nac ydw, dw i ddim yn gallu \_\_\_\_\_'



coginio



gyrru



chwarae golff



canu'r piano



peintio



siarad Sbaeneg



sgio



nofio

## Mewn grwpiau o dri

Trafodwch beth mae pobl dych chi'n nabod  
yn gallu wneud neu ddim yn gallu wneud.

*Discuss what people you know can or can't do.*

- e.e. Mae fy mrawd i'n gallu gyrru motor beic.  
Dyw fy ffrind i ddim yn gallu nofio.  
Mae fy mhlant i'n gallu chwarae tenis.

## Dyma rai syniadau:

defnyddio cyfrifiadur, siarad iaith arall,  
canu offeryn cerdd, dawnsio'r salsa, chwaraeon.



### 2. Pa mor aml dych chi'n nofio?

byth

Dw i byth yn nofio

Dyw e byth yn nofio

bob dydd

bob wythnos

ambell waith/ weithiau

yn aml

unwaith y mis

dwywaith yr wythnos

unwaith y flwyddyn

Dw i'n nofio bob dydd

Dw i'n nofio'n aml

Dw i ddim yn canu'r piano'n aml

Dyw hi ddim yn nofio bob dydd

*How often do you swim?*

*never*

*I never swim*

*He never swims*

*every day*

*every week*

*sometimes*

*often*

*once a month*

*twice a week*

*once a year*

*I swim every day*

*I often swim*

*I don't play the piano often*

*She doesn't swim every day*



## Deialog

**A:** Wyt ti'n hoffi nofio?

**B:** Ydw, ond dw i ddim yn gallu nofio'n dda iawn.

**A:** Pa mor aml wyt ti'n mynd i nofio?

**B:** Bob wythnos.

**A:** Wyt ti'n mynd i'r sinema weithiau?

**B:** Nac ydw. Byth. Wyt ti, 'te?

**A:** Nac ydw, dw i ddim yn gallu diodde ffilmiau.



## Geirfa

|                      |                  |
|----------------------|------------------|
| ambell waith         | - sometimes      |
| bob dydd             | - every day      |
| byth                 | - never          |
| dwywaith y mis       | - twice a month  |
| ddim yn gallu diodde | - can't stand    |
| eitha da             | - quite well     |
| pa mor aml...?       | - how often ...? |
| unwaith              | - once           |
| weithiau             | - sometimes      |
| yn aml               | - often          |

Ychwanegwch eirfa  
sy'n berthnasol i chi:

Add vocabulary that's  
relevant to you:



## Gramadeg

### Gallu

Mae gallu yn golygu (*means*) - can / to be able to.

Dyma'r patrwm i'r rhai sy'n dwlu ar batrymau!

Here's the pattern for you pattern freaks!

|                          |                                |                           |
|--------------------------|--------------------------------|---------------------------|
| Dw i'n gallu nofio       | Dw i ddim yn gallu nofio       | Ydw i'n gallu nofio?      |
| Rwy't ti'n gallu nofio   | Dwy't ti ddim yn gallu nofio   | Wyt ti'n gallu nofio?     |
| Mae e / hi'n gallu nofio | Dyw e / hi ddim yn gallu nofio | Ydy e / hi'n gallu nofio? |
| Dyn ni'n gallu nofio     | Dyn ni ddim yn gallu nofio     | Dyn ni'n gallu nofio?     |
| Dych chi'n gallu nofio   | Dych chi ddim yn gallu nofio   | Dych chi'n gallu nofio?   |
| Maen nhw'n gallu nofio   | Dyn nhw ddim yn gallu nofio    | Dyn nhw'n gallu nofio?    |

### Byth

Dych chi'n defnyddio'r **negyddol** (*negative forms*) gyda **byth**:

|                                |                            |
|--------------------------------|----------------------------|
| Dyw e byth yn golchi'r llestri | He never washes the dishes |
| Dwy't ti byth yn gyrru'r car   | You never drive the car    |

### Canu

Yn Gymraeg, dyn ni'n **canu** (*sing*) a dyn ni'n **canu offeryn** (*lit. sing an instrument*)  
e.e. **canu'r** piano; **canu'r** gitâr, **canu'r** trwmpeid

Ond, mae pobl yn aml yn dweud **chwarae'r** piano, **chwarae'r** gitâr.



# Cwrs Mynediad: Uned 28



Nod: Trafod lleydd *Discussing places*

1. Wyt ti wedi bod yn Awstralia?  
Wyt ti wedi bod yn America erioed?

*Have you been to Australia?  
Have you ever been to America?*

YDW / NAC YDW

Dw i wedi bod 'na unwaith  
Dw i wedi bod 'na ddwywaith  
Dw i wedi bod 'na sawl gwaith  
Dw i ddim wedi bod 'na erioed

*I've been there once  
I've been there twice  
I've been there several times  
I've never been there*


## Holiadur

Meddylwch am ddau le diddorol yng Nghymru dych chi wedi bod  
ynddyn nhw. Gofynnwch i 5 o bobl eraill ydyn nhw wedi bod yno erioed.

*Think of two interesting places in Wales you've been to.  
Ask 5 other people if they've ever been there.*



| Enw | Lle 1:<br>_____ | Lle 2:<br>_____ |
|-----|-----------------|-----------------|
| 1.  |                 |                 |
| 2.  |                 |                 |
| 3.  |                 |                 |
| 4.  |                 |                 |
| 5.  |                 |                 |



2. Mae John wedi bod yn yr Almaen  
Mae e wedi bod 'na o'r blaen

Mae Margaret wedi bod yn yr Eidal  
Mae hi wedi bod 'na sawl gwaith

**Ble mae e wedi bod?**  
**Ble mae hi wedi bod?**

Ydy John wedi bod yn Llundain?  
Ydy Margaret wedi bod yn Sbaen?

*John's been to Germany  
He's been there before*

*Margaret has been to Italy  
She's been there several times*

**Where has he been?**  
**Where has she been?**

*Has John been to London?*  
*Has Margaret been to Spain?*



### Gyda phartner

Ticiwch 3 o'r llefydd ar y map.

Partner A: Dyma'r llefydd mae John wedi bod ynddyn nhw.

Partner B: Dyma'r llefydd mae Margaret wedi bod ynddyn nhw.

Gofynnwch gwestiynau yn eich tro i gael hyd i'r tri lle mae eich partner wedi ticio.

Y cyntaf i gael y tri sy'n ennill.

*Tick 3 of the places on the map.*

*Partner A: These are the places  
where John has been.*

*Partner B: These are the places  
Margaret has been to.*

*Ask questions in turn to find the  
three places your partner has ticked.  
The first to find all three wins.*



Cofiwch - dim "n" gyda 'wedi':

Dw i wedi bod...

Remember - no "n" with 'wedi':

Dw i wedi bod...

3. Roedd e'n ddiddorol  
Roedd e'n bert  
Roedd e'n ofnadwy  
Roedd e'n rhy fawr  
  
Sut le oedd Caeredin?

*It was interesting  
It was pretty  
It was terrible  
It was too big*

**What sort of place was Edinburgh?**

## Dyfalw - Wyt ti wedi bod yn...?

*Guessing - Have you been to...?*

Ar ddarn o bapur, ysgrifennwch enw un lle diddorol dych chi wedi bod ynddo.  
Bydd eich tiwtor yn rhoi'r papurau mewn bocs a bydd rhaid i chi ddewis un o'r llefydd.  
Ceisiwch ddyfalw pwy yn y dosbarth sy wedi bod yn y lle ar y papur.

*On a scrap of paper, write the name of one interesting place you've been to.*

*Your tutor will put the papers in a box and you will have to choose one of the places.*

*Try to guess who in the class has been to the place written on the paper.*

Y cwestiwn pwysig - *The key question:*

**Wyt ti wedi bod yn....?**

Bydd y tiwtor yn ysgrifennu'r  
llefydd ar y bwrdd wrth fynd  
ymlaen. Ar ôl gorffen, siaradwch  
â'ch partner am bob lle.

*Your tutor will write the places  
on the board as you go along.*

*After finishing, talk to your  
partner about each place.*



4. Ro'n i'n dost  
Ro'n i wedi blino  
Ro'n i wedi meddwi  
Ro'n i'n rhy hwyr  
Ro'n i'n rhy brysus  
Ro'n i'n iawn  
  
Roedd e'n rhy oer  
Roedd e'n rhy bell i gerdded  
Roedd e'n rhy ddud  
  
Roedd y gwesty'n neis iawn  
Roedd y bwyd yn fendigedig

*I was ill  
I was tired  
I was drunk  
I was too late  
I was too busy  
I was OK/alright  
  
It was too cold  
It was too far to walk  
It was too expensive  
  
The hotel was very nice  
The food was excellent*



## Cerdyn Post

Darllenwch y cerdyn post hwn yn uchel i'ch partner. Yna newidiwch y geiriau sy mewn llythrennau tywyll a'i ddarllen eto. Dysgwch y cerdyn ar eich cof!

*Read this post-card aloud to your partner. Then change the words which are in bold type and read again. Learn your post-card by heart!*



## Rhoi Rhesymau

*Giving reasons*

Gyda'ch partner, meddyliwch am reswm pam aethoch chi i'r llefydd hyn neu pam nad aethoch chi. Dechreuwch â 'Ro'n i...' neu 'Roedd e...'

*With your partner, think of a reason why you did or didn't go to these places. Start with 'Ro'n i...' or 'Roedd e...'*

e.e. Aethoch chi i Barbados?

Naddo. Roedd e'n rhy ddrud.

*Did you go to Barbados?*

*No. It was too expensive.*

1. Aethoch chi i Alaska?

5. Aethoch chi i Lundain?

2. Aethoch chi i Hong Kong?

6. Aethoch chi adre yn y car?

3. Aethoch chi i'r Ristorante Italiano?

7. Aethoch chi i'r gwely?

4. Aethoch chi i Land's End?

8. Aethoch chi i'r dosbarth Cymraeg?



## Deialog

**A:** Wyt ti wedi bod yn **Llangrannog** o'r blaen?

**B:** Nac ydw. Beth amdanat ti?

**A:** Dw i wedi bod 'ma **sawl** gwaith.

**B:** Mae'r plant wedi bod yma. Daethon nhw 'ma gyda'r ysgol.

**A:** Des i 'ma flynyddoedd yn ôl.

**B:** Sut le yw **Llangrannog**? Ydy'r lle wedi newid?

**A:** Nac ydy, dim llawer. Mae e'n **brysur** yn yr haf ac yn **dawel** yn y gaeaf.

**B:** Wel, mae e'n **fendigedig** yn y tywydd 'ma.



## Geirfa

|             |                       |
|-------------|-----------------------|
| o'r blaen   | - before / previously |
| sawl gwaith | - several times       |
| blynyddoedd | - years               |
| newid       | - to change           |
| tawel       | - quiet               |
| bendigedig  | - excellent           |

Ychwanegwch eirfa  
sy'n berthnasol i chi:

Add vocabulary that's  
relevant to you:



## Gramadeg

**wedi** Cofiwch fod y gair **wedi** yn cael ei ddefnyddio yn lle **yn** neu **'n** i gysylltu rhannau'r frawddeg â'i gilydd.

*Remember that the word **wedi** is used instead of **yn** or **'n** to connect the parts of the sentence.*

Mae John wedi bod yma o'r blaen. [No **yn** after John]

Dw i wedi blino. [No **'n** after Dw i]

**rhy** Mae Treigladd Meddal ar ôl **rhy**:

*There is a Treigladd Meddal after **rhy** (too):*

Mae e'n rhy bell. [from pell]

Mae e'n rhy ddrudd. [from drud]

**Sut** Ystyr **Sut** fel arfer yw 'How?' O flaen enw, mae'n gallu golygu 'What sort of...?' Os felly, mae Treigladd Meddal yn dilyn:

**Sut** usually means 'How?' In front of a noun, it can mean

'What sort of...?' If so, a Treigladd Meddal follows:

Sut le yw Caergybi? What sort of place is Holyhead?

Sut berson yw John? What sort of person is John?

**Wedi a'r gorffennol** *Wedi and the past tense*

Cofiwch y gwahaniaeth rhwng brawddegau **wedi** a'r gorffennol:

*Remember the difference between **wedi** sentences and the past:*

Mae'r plant wedi dod i'r ysgol The children have come to school

Daeth y plant i'r ysgol The children came to school

**Wedi** sentences usually mean that someone **has** done something or **has** been somewhere or that people **have** been somewhere or **have** done something.



# Cwrs Mynediad: Uned 29

**Nod:** Trafod Cynlluniau *Discussing plans*

1. Fyddwch chi gartre yfory?  
Fyddwch chi yn y gwaith yfory?  
Fyddi di'n rhydd wythnos nesa?  
Fyddi di ar gael dydd Mercher?
- Bydda / Na fydda
- Bydda i'n gweithio  
Bydda i'n hwyr heno  
Fyddi i ddim yn gweithio bore yfory  
Fyddi i ddim gartre dydd lau

*Will you be home tomorrow?*  
*Will you be in work tomorrow?*  
*Will you be free next week?*  
*Will you be available on Wednesday?*

*Yes / No*

*I'll be working*  
*I'll be late tonight*  
*I won't be working tomorrow morning*  
*I won't be home on Thursday*

## Cwestiwn i bawb

Cofnodwch eich atebion yma - *Note your answers here!*

| Enw | Ateb |
|-----|------|
|     |      |

when

2. Pryd bydd e nôl?  
Pryd bydd e'n cyrraedd?  
Fydd e'n rhydd?  
Fydd hi ar gael?

Bydd / Na fydd

Bydd e nôl erbyn chwech  
Bydd hi'n gadael bore yfory  
Fydd e ddim yn cyrraedd heddiw  
Fydd hi ddim ar gael yn y bore

When will he be back?  
When will he arrive?  
Will he be free?  
Will she be available?

Yes / No

He'll be back by six o'clock  
She'll be leaving tomorrow morning  
He won't arrive today  
She won't be available in the morning

## Dyddiadur Person Enwog

Dych chi'n gweithio fel ysgrifennydd i berson enwog. Dyma ei ddyddiadur e / ei dyddiadur hi. Ysgrifennwch enw'r person enwog Donald Trump

|              |                 |             |                           |
|--------------|-----------------|-------------|---------------------------|
| Dydd Llun    | dim byd         | Nos Lun     | ar y ffôn                 |
| Dydd Mawrth  | dim byd         | Nos Fawrth  | yn cyflwynu ei ardd       |
| Dydd Mercher | dim byd         | Nos Fercher | mynd ar y teledu          |
| Dydd Iau     | golchi ei wallt | Nos Iau     | yn ymarfer sgaraf         |
| Dydd Gwener  | chwareu golff   | Nos Wener   | ysgrifennu llyfr anesgymd |

Llenwch ddyddiadur y person enwog. Bydd e/hi'n gweithio ambeil waith, yn ymlacio ambeil waith ac weithiau, fydd e/hi ddim yn gwneud dim byd.

### Yn gweithio (dewiswch 4)

yn ymarfer cael/actio/pêl-droed/siarad  
yn ysgrifennu llyfr am ei fywyd/ei bywyd  
yn cyflwynu ei ardd/ei harian  
yn mynd ar y teledu  
yn siarad â'r cylchgrawn Hello!

(Dim byd (x 3))

### Yn ymlacio (dewiswch 3)

yn cael bath hir  
yn golchi ei wallt/ei gwallt  
mewn cinio pwysig  
yn chwarae golff/sboncen  
ar y ffôn



Gofynnwch gwestiynau i ysgrifenyddion eraill er mwyn trefnu cyfarfod.

*Ask other secretaries questions so that you can arrange a meeting.*

'Fydd \_\_\_\_\_  
yn rhydd Nos Wener?'

'Pryd mae \_\_\_\_\_  
yn cyfri ei arian/ei harian?'

'Beth fydd \_\_\_\_\_  
yn wneud dydd Mawrth?'



- 3. Ble byddwch chi'n mynd ar wyliau?**  
**Sut byddwch chi'n mynd?**  
**Beth fyddan nhw'n wneud?**  
**Pryd byddan nhw'n dod nôl?**

*Where will you go on holiday?*

*How will you go?*

*What will they do?*

*When will they be coming back?*

Byddwn ni'n mynd i'r Eidal

*We'll be going to Italy*

Byddwn ni'n mynd mewn awyren

*We'll be going by plane*

Byddan nhw'n ymweld â Rhufain

*They'll visit Rome*

Byddan nhw'n dod nôl dydd Sul nesa

*They'll be coming back next Sunday*



### Gyda phartner

Trefnwch wyliau gyda'ch partner. Dewiswch:

- i) **Ble byddwch chi'n mynd.**

\_\_\_\_\_

- ii) **Pryd byddwch chi'n mynd a phryd byddwch chi'n dod nôl.**

\_\_\_\_\_

- iii) **Sut byddwch chi'n mynd.**

\_\_\_\_\_

- iv) **Beth fyddwch chi'n wneud ar eich gwyliau.**

\_\_\_\_\_



Gofynnwch gwestiynau i bâr arall.  
Ysgrifennwch fanylion eu gwyliau nhw:

*Write the details of their holidays:*

Ble? \_\_\_\_\_

Pryd? \_\_\_\_\_

Sut? \_\_\_\_\_

Beth? \_\_\_\_\_

Cofiwch ofyn am ganiatâd (*permission*) cyn mynd!



## Deialog

- A:** Fyddi di nôl yn gynnar nos yfory?  
**B:** Na fydda, bydda i'n hwyr.  
**A:** Beth am nos Fawrth?  
**B:** Rhaid i fi weithio'n hwyr nos Fawrth.  
**A:** Wel, beth am nos Iau, 'te?  
**B:** Bydd Dafydd a fi'n mynd i Gaerdydd dydd Iau a ...  
**A:** Byddwch chi nôl yn hwyr. Wel, mae un peth yn amlwg.  
**B:** Beth, nawr 'to?  
**A:** Bydd y ci'n bwyta'n dda yr wythnos yma!



## Geirfa

|                       |                    |
|-----------------------|--------------------|
| amlwg                 | - obvious          |
| ar gael               | - available        |
| bwyta'n dda           | - to eat well      |
| bywyd                 | - life             |
| campfa (b)            | - gym              |
| cyfri                 | - to count         |
| erbyn saith o'r gloch | - by seven o'clock |
| pwysig                | - important        |
| rhydd                 | - free             |

Ychwanegwch eirfa  
sy'n berthnasol i chi:

*Add vocabulary that's  
relevant to you:*

---



---



---



---



---



---



## Gramadeg

### Y Dyfodol

*The Future*

Yn Uned 7, gwelon ni: **Bydd** hi'n braf yfory.

Dyma'r patrwm i gyd:

*Here's the whole pattern:*



|                    |                          |                     |                  |
|--------------------|--------------------------|---------------------|------------------|
| Bydda i'n mynd     | Fyddda i ddim yn mynd    | Fyddda i'n mynd?    | Bydda / Na fydda |
| Byddi di'n mynd    | Fyddi di ddim yn mynd    | Fyddi di'n mynd?    |                  |
| Bydd e/hi'n mynd   | Fydd e/hi ddim yn mynd   | Fydd e/hi'n mynd?   | Bydd / Na fydd   |
| Byddwn ni'n mynd   | Fyddwn ni ddim yn mynd   | Fyddwn ni'n mynd?   |                  |
| Byddwch chi'n mynd | Fyddwch chi ddim yn mynd | Fyddwch chi'n mynd? |                  |
| Byddan nhw'n mynd  | Fyddan nhw ddim yn mynd  | Fyddan nhw'n mynd?  |                  |

Sylwch mai **di** sydd yn y dyfodol, nid **ti**

*Note that it's **di** in the future, not **ti***

### Yes / No

Dyn ni'n cyflwyno **dau** ateb yn y dyfodol yma:

*We are introducing **two** answers in the future tense here:*

**Bydda/Na fydda** - i ateb cwestiynau 'Fyddi di...?' a 'Fyddwch chi...?'

**Bydd/Na fydd** - i ateb cwestiynau 'Fydd e/hi...?'



# Cwrs Mynediad: Uned 30



Nod: Adolygu ac ymestyn *Revision and extension*

1. Mae gwallt byr golau gyda fe  
Mae gwallt hir tywyll gyda hi  
Does dim sbectol gyda hi  
Oes barf gyda fe?

Dw i'n gallu siarad Cymraeg  
Dw i ddim yn gallu nofio'n dda iawn  
Mae e'n gallu teipio'n eitha da  
Dyw hi ddim yn gallu agor y ffenest  
Wyt ti'n gallu cofio?  
Dych chi'n gallu helpu?

Dw i wedi bod yn America  
Dw i ddim wedi bod yn Sbaen  
Wyt ti wedi bod yn Awstralia?  
Dych chi wedi bod yn Llangrannog?

*He's got short brown hair  
She's got long dark hair  
She hasn't got/doesn't wear glasses  
Has he got a beard?*

*I can speak Welsh  
I can't swim very well  
He can type quite well  
She can't open the window  
Can you remember?  
Can you help?*

*I have been to America  
I haven't been to Spain  
Have you been to Australia?  
Have you been to Llangrannog?*






## Gyda phartner

Meddylwch am 6 brawddeg am y person yng nghanol y llun gan ddefnyddio'r wybodaeth yn yr arwyddion o'i gwmpas.

*Think of 6 sentences about the person in the centre of the picture using the information in the signs around him.*



Dyma Emrys. \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_



## Darllen yn uchel

Annwyl Gyfeillion,

Croeso i chi i gyd i'r cyngerdd heno. Mae'n hyfryd gweld y neuadd yn llawn.

Mae pawb wedi bod yn brysur yn paratoi, a dyn ni i gyd yn edrych ymlaen at noson dda. Dw i'n siŵr bydd pawb yn mwynhau. Croeso mawr i chi bob un.



## Gyda phartner

Gofynnwch gwestiynau yn Gymraeg i'ch partner ('yr Arholwr') er mwyn cael gwybodaeth amdano/amdani. (Defnyddiwch 'chi' yn y cwestiynau). Does dim rhaid i chi ysgrifennu'r atebion.

*Ask your partner ('the Examiner') questions in Welsh to find out information about him/her. (Use **chi** in your questions). You don't need to write the answers.*

Defnyddiwch yr allweddeiriau yma yn eich cwestiynau:

*Use these keywords in your questions:*

e.e. Y PENWYTHNOS DIWETHA - 'Beth wnaethoch chi'r penwythnos diwetha?'

### Partner A yn holi Partner B:

1. gwyliau
2. gwesty
3. tywydd
4. gwneud
5. bwyta

### Partner B yn holi Partner A:

1. byw
2. yn wreiddiol
3. teulu
4. gwaith
5. neithiwr



## Darllen Arwyddion

Ble dych chi'n gweld yr arwyddion yma?

*Where do you see these signs?*

Rhowch lythyren yr ateb cywir yn y bocs.

*Put the letter of the correct answer in the box.*



## Enghraifft

*Example*

**Adran Sbaeneg**

- a mewn tafarn
- b mewn coleg
- c mewn parc
- ch mewn ysbyty

.....

1.

**Llwybr cyhoeddus**

- a mewn ysbyty
- b mewn sinema
- c ar y draffordd
- ch mewn parc

.....

2.

**TALWCH YMA**

- a mewn eglwys
- b mewn parc
- c mewn siop
- ch mewn capel

.....

3.

**Dynion**

- (a) mewn capel  
 (b) ar y draffordd  
 (c) mewn eglwys  
 (ch) mewn tŷ bach



4.

**DIM MYNEDIAD**


- (a) ar fwyd  
 (b) ar lan y môr  
 (c) ar ddrws  
 (ch) ar y teledu



5.

**Dim parcio**

- (a) ar ddrws  
 (b) ar gyfrifiadur  
 (c) ar y stryd  
 (ch) ar fwyd



2. Bydd y cyngerdd yn dechrau am 8 o'r gloch  
 Bydd i'n mynd am hanner awr wedi saith  
 Fydd e ddim yn hwyr heno  
 Fyddwch chi'n mynd i'r dre nos yfory?

*The concert will start at 8 o'clock  
 I will be going at half past seven  
 He won't be late tonight  
 Will you be going to town  
 tomorrow night?*

**Gwranddo**

Dych chi'n mynd i glywed 5 hysbysiad. Rhaid i chi roi'r wybodaeth briodol yn y grid ar sail y tâp. Peidiwch ag edrych ar y grid tan i'r tiwtor roi caniatâd (ar ôl y gwrandawriad cyntaf). Yna byddwch yn eu clywed eto un ar y tro gyda 30 eiliad rhwng pob hysbysiad. Yna, byddwch yn clywed y 5 hysbysiad eto. Cewch chi 2 funud ar y diwedd i edrych dros eich atebion.

*You are going to hear 5 announcements. You will have to put the appropriate information in the grid based on the tape. Don't look at the grid before the tutor gives permission (after the first hearing). Then, you will hear each one again with 30 seconds between each announcement. Then, you will hear the 5 announcements again. You will have 2 minutes at the end to check your answers.*

**Grid Gwranddo**

| Beth          | Ble | Nos | Amser | Pris |
|---------------|-----|-----|-------|------|
| Cwis          |     |     |       |      |
| Ffair Nadolig |     |     |       |      |
| Cyngerdd      |     |     |       |      |
| Twmpath Dawns |     |     |       |      |
| Cawl a Chân   |     |     |       |      |

## Rhestr gyfair *Check list*

✓ Ticiwch beth dych chi'n gallu wneud. Yn Gymraeg!

*Tick what you can do. In Welsh!*

- ☐ Dw i'n gallu disgrifio golwg rhywun  
*I can describe a person's appearance*
- ☐ Dw i'n gallu gofyn cwestiynau am olwg rhywun  
*I can ask questions about a person's appearance*
- ☐ Dw i'n gallu disgrifio fy nghartref  
*I can describe my home*
- ☐ Dw i'n gallu gofyn cwestiynau i bobl eraill am eu cartref  
*I can ask other people questions about their home*
- ☐ Dw i'n gallu dweud beth dw i a phobl eraill yn gallu wneud  
*I can say what I and other people can do*
- ☐ Dw i'n gallu holi person arall beth mae e/hi'n gallu wneud  
*I can ask someone else what he/she can do*
- ☐ Dw i'n gallu dweud pa mor aml dw i a phobl eraill yn gwneud rhywbeth  
*I can say how often I and other people do something*
- ☐ Dw i'n gallu holi pa mor aml mae rhywun yn gwneud rhywbeth  
*I can ask how often someone does something*
- ☐ Dw i'n gallu siarad am rywbeth wnes i am gyfnod yn y gorffennol  
*I can talk about something I did for a period of time in the past*
- ☐ Dw i'n gallu gofyn cwestiynau am ddigwyddiadau yn y gorffennol  
*I can ask questions about events in the past*
- ☐ Dw i'n gallu siarad am gynlluniau yn y dyfodol  
*I can talk about future plans*
- ☐ Dw i'n gallu gofyn cwestiynau am gynlluniau pobl eraill yn y dyfodol  
*I can ask questions about other people's future plans*





# Patrymau unedau 26-30

## How many?

Mae dwy ffordd o ddweud *How many?*

Faint + o + **plural noun**

Sawl + **singular noun**

Faint o ystafelloedd sy gyda chi?

Sawl ystafell sy gyda chi?

## Byth

Dych chi'n defnyddio'r **negyddol** (*negative forms*) gyda **byth**:

**Dyw** e byth yn golchi'r llestri

*He never washes the dishes*

**Dwyt** ti byth yn gyrru'r car

*You never drive the car*

## Sut

Ystyr **Sut** fel arfer yw '*How?*' O flaen enw, mae'n gallu golygu '*What sort of...?*'

Os felly, mae Treigladd Meddal yn dilyn:

**Sut** usually means '*How?*' In front of a noun, it can mean '*What sort of...?*'

*If so, a Treigladd Meddal follows:*

Sut le yw Caergybi?

*What sort of place is Holyhead?*

Sut berson yw John?

*What sort of person is John?*

## Wedi a'r gorffennol – Wedi and the past tense

Cofiwch y gwahaniaeth rhwng brawddegau **wedi** a'r gorffennol:

*Remember the difference between **wedi** sentences and the past:*

Mae'r plant wedi dod i'r ysgol

*The children have come to school*

Daeth y plant i'r ysgol

*The children came to school*

**Wedi** sentences usually mean that someone **has** done something or **has** been somewhere or that people **have** been somewhere or **have** done something.

Cofiwch – peidiwch defnyddio **yn** gyda **wedi**. *Remember not to use yn with wedi.*

## Y Dyfodol

*The Future*

Bydda i'n mynd

Fyddda i ddim yn mynd

Fyddda i'n mynd?

Bydda / Na fydda

Byddi di'n mynd

Fydddi di ddim yn mynd

Fydddi di'n mynd?

Bydd / Na fydd

Bydd e/hi'n mynd

Fydd e/hi ddim yn mynd

Fydd e/hi'n mynd?

Bydd / Na fydd

Byddwn ni'n mynd

Fyddwn ni ddim yn mynd

Fyddwn ni'n mynd?

Byddwch chi'n mynd

Fyddwch chi ddim yn mynd

Fyddwch chi'n mynd?

Byddan nhw'n mynd

Fyddan nhw ddim yn mynd

Fyddan nhw'n mynd?



# Geirfa Graidd - unedau 26-30



|                   |   |                                              |
|-------------------|---|----------------------------------------------|
| ambell waith      | - | <i>sometimes</i>                             |
| amlwg             | - | <i>obvious</i>                               |
| ar gael           | - | <i>available</i>                             |
| barf (b)          | - | <i>beard</i>                                 |
| bendigedig        | - | <i>excellent,<br/>wonderful</i>              |
| blynnyddoedd      | - | <i>years</i>                                 |
| bob dydd          | - | <i>every day</i>                             |
| bwyta'n dda       | - | <i>to eat well</i>                           |
| byr               | - | <i>short</i>                                 |
| byth              | - | <i>never</i>                                 |
| bywyd             | - | <i>life</i>                                  |
| campfa (b)        | - | <i>gym</i>                                   |
| cegin(au) (b)     | - | <i>kitchen(s)</i>                            |
| clustdlws         |   |                                              |
| (clustdlwsau)     | - | <i>ear-ring(s)</i>                           |
| cyfreithwraig (b) | - | <i>female solicitor</i>                      |
| cyfri             | - | <i>to count</i>                              |
| cyrliog           | - | <i>curly</i>                                 |
| dwywaith y mis    | - | <i>twice a month</i>                         |
| eitha da          | - | <i>quite well</i>                            |
| erbyn saith       |   |                                              |
| o'r gloch         | - | <i>by seven o'clock</i>                      |
| garej             | - | <i>garage</i>                                |
| golau             | - | <i>fair (hair)</i>                           |
| gwallt            | - | <i>hair</i>                                  |
| het(iau) (b)      | - | <i>hat(s)</i>                                |
| hir               | - | <i>long</i>                                  |
| honna (b)         | - | <i>that one (feminine<br/>person/thing)</i>  |
| hwnna             | - | <i>that one (masculine<br/>person/thing)</i> |
| lolfaf (b)        | - | <i>lounge</i>                                |

|                    |   |                          |
|--------------------|---|--------------------------|
| lle parcio         | - | <i>parking space</i>     |
| llygad (llygaidd)  | - | <i>eye(s)</i>            |
| moel               | - | <i>bald</i>              |
| mwstach            | - | <i>moustache</i>         |
| newid              | - | <i>to change</i>         |
| o'r blaen          | - | <i>before/previously</i> |
| pa mor aml...?     | - | <i>how often ...?</i>    |
| pwysig             | - | <i>important</i>         |
| rhydd              | - | <i>free</i>              |
| sawl gwaith        | - | <i>several times</i>     |
| sbectol (b)        | - | <i>glasses</i>           |
| smwt               | - | <i>snub (nose)</i>       |
| tawel              | - | <i>quiet</i>             |
| trwyn(au)          | - | <i>nose(s)</i>           |
| tywyll             | - | <i>dark</i>              |
| unwaith            | - | <i>once</i>              |
| weithiau           | - | <i>sometimes</i>         |
| yn aml             | - | <i>often</i>             |
| ystafell fwyta (b) | - | <i>dining room</i>       |
| ystafell fyw (b)   | - | <i>living room</i>       |
| ystafell wely (b)  | - | <i>bedroom</i>           |
| ystafell           |   |                          |
| ymolchi (b)        | - | <i>bathroom</i>          |